OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1672 (Cy.160)

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU
PENSIYNAU, CYMRU

Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'i wneud	- -	*21 Mehefin 2006*
Yn dod i rym	- -	*23 Mehefin 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a gynhwysir yn adran 26 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947(**1**), adran 12 o Ddeddf Blwydd-dal 1972(**2**) fel y mae wedi'i chymhwyso gan adran 16(3) o'r Ddeddf honno (**3**), adrannau 36, 53, 60 a 62 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (**4**), ac adran 259(1), (2)(c) a (4)(b) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004(**5**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Mehefin 2006 ond—

(a) yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'r diwygiadau a nodir yn Atodlen 1 yn effeithiol ers 11 Tachwedd 2004; a

(b) mae'r diwygiadau a nodir yn Atodlen 2 yn effeithiol ers 5 Rhagfyr 2005.

(**1**) 1947 p.41, a ddiddymwyd gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) ac Atodlen 2 iddi. Parhawyd i gadw isadrannau (1) i (5) o adran 26 mewn grym, at ddibenion y cynllun a sefydlwyd o dan yr adran honno fel Cynllun Pensiwn y Dynion Tân ac a nodwyd yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129), gan Orchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2918 (Cy.257)). Newidiwyd enw'r cynllun i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) gan erthygl 4(1) o'r Gorchymyn hwnnw. Diwygiwyd adran 26 o Ddeddf 1947 gan adran 1 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1951 (p.27), adran 42 o Ddeddf y Lluoedd Wrth Gefn a'r Lluoedd Cynorthwyol (Amddiffyn Buddiannau Sifil) 1951 (p.65), adran 33 o Ddeddf Lladrata 1968 (p.60) ac Atodlen 3 iddi, adrannau 16 a 29 o Ddeddf Blwydd-dal 1972 (p.11) ac Atodlen 8 iddi, adran 100 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1973 (p.38) ac Atodlen 27 iddi, adran 1 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Darpariaethau Canlyniadol) 1975 (p.18) ac Atodlen 1 iddi, adran 32 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43), adran 1 o Ddeddf Pensiynau'r Heddlu a'r Dynion Tân 1997 (p.52) ac erthygl 2 i Orchymyn Nawdd Cymdeithasol (Diwygio Deddf y Gwasanaethau Tân 1947) 1976 (O.S. 1976/551).

(**2**) 1972 p.11; diwygiwyd adran 12 gan Ddeddf Pensiynau (Darpariaethau Amrywiol) 1990 (p.7).

(**3**) Parhawyd i gadw adran 16 mewn grym, at ddibenion Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (a ailenwyd yn Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru)) gan Orchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2918 (Cy.257)).

(**4**) 2004 p.21.

(**5**) 2004 p.33.

(3) Mae'r diwygiadau canlynol a nodir yn Atodlen 1 yn effeithiol fel a ganlyn—

(a) mae'r diwygiadau canlynol yn effeithiol o 23 Mehefin 2006 ymlaen—

(i) y diwygiadau a wneir gan baragraff 9, i'r graddau y mae'n ymwneud â rheol A13 (sy'n ymwnud ag oedran pensiwn arferol); a chan baragraff 15(a)(iii), (b)(ii), (c) ac (ch) (sy'n ymwneud â phensiynau gohiriedig); a

(ii) y diwygiadau a wneir gan baragraff 7(a) a (b)(i), paragraff 75(ch), i'r graddau y mae'n ymwneud â mewnosod paragraffau (5) a (6) rheol L1, a pharagraffau 78, 79 ac 82(b) (sy'n ymwneud ag atal dyblygu dyfarniadau penodol);

(b) mae'r diwygiadau canlynol yn effeithiol ers 13 Medi 2004—

(i) y diwygiad a wneir gan baragraff 81(b) (sy'n ymwneud â'r diffiniad o "independent qualified medical practitioner"); a

(ii) y diwygiad a wneir gan baragraff 86(b)(ii)(aa) (sy'n ymwneud â'r gwasanaeth sy'n gyfrifadwy pan dderbynnir gwerth trosglwyddo); ac

(c) mae'r diwygiadau a wneir gan baragraffau 24 (sy'n ymwneud â chyfyngu ar ddyfarniadau i weddwon) a 25 (sy'n ymwneud â budd-dal angenrheidiol a phensiwn dros dro gweddwon) yn effeithiol ers 1 Mawrth 1992.

Parhau â Chynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) mewn grym a'i ddiwygio

2.—(1) Mae Cynllun Pensiwn y Dynion Tân sydd wedi'i nodi yn Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992(**6**)(a ailenwyd mewn perthynas â Chymru yn Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru))(**7**) yn parhau mewn grym fel y'i diwygiwyd yn unol â'r Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

2.—(2) At ddibenion y Cynllun a gedwir gan baragraff (1), mae darpariaethau adran 26, is-adrannau (1) i (5) o Ddeddf y Gwasanaethau Ta 246 n 1947 yn effeithiol fel pe rhoddid cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn lle cyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**8**)

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

21 Mehefin 2006

(**6**) O.S. 1992/129; a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/2309 a 2851, 1998/1010, 2001/3649 a 3691 a 2004/1912.
(**7**) Cadwodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y cynllun a sefydlwyd o dan adran 26 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947 (a adnabyddir yng Nghymru fel Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru)) yn rhinwedd O.S. 2004/2918 (Cy.257).
(**8**) 1998 p.38.

ATODLEN 1 Erthygl 2

DIWYGIO CYNLLUN PENSIWN Y DYNION TâN (CYMRU)

1. Yn rheol A3 (ei gymhwyso at ddiffoddwyr tân rheolaidd yn unig)(**9**)ym mharagraff (3), yn lle "a member of a brigade", rhodder "an employee of a fire and rescue authority".

2. Yn rheol A4 (ei gymhwyso at gyflogaeth dros dro sy'n gysylltiedig â gwasanaethau tân)—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle "fire services", rhodder "fire and rescue services"; a

(ii) yn is-baragraffau (a), (c) a (d) ar ôl y geiriau "Secretary of State"(ym mhob lle), mewnosoder "or National Assembly for Wales"; a

(b) yn lle paragraff (3), rhodder—

"(3) Where this rule applies the person's relevant employment shall be treated for the purposes of this Scheme as employment by a fire and rescue authority and this Scheme applies in relation to the relevant employment as if—

(a) he were, and his duties were duties as, a regular firefighter,

(b) his pay and role were the same as they would have been had he not ceased to perform duties as a regular firefighter or, where section 10 of the Fire Services Act 1959(**10**)applies, the same as his pay and role as an employee of a fire and rescue authority,

(c) any reference to employment with a fire and rescue authority were a reference to the relevant employment,

(d) rules A14, A15 and L2 were omitted, and

(e) any reference to a fire and rescue authority were a reference to the Secretary of State or the National Assembly for Wales.".

3. Yn rheol A5 (ei gymhwyso at gyflogaeth barhaol fel hyfforddwr)—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle "fire services", rhodder "fire and rescue services"; a

(ii) ar ôl "Secretary of State", mewnosoder "or the National Assembly for Wales"; a

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn lle "as a member of a brigade", rhodder "by a fire and rescue authority";

(ii) hepgorer is-baragraff (b);

(iii) yn is-baragraff (c), yn lle "fire authority", rhodder "fire and rescue authority"ac ar ôl "Secretary of State" mewnosoder "or the National Assembly for Wales";

(iv) yn is-baragraff (d), yn lle "A13 to", rhodder "A14,".

4. Yn rheol A6 (heb fod yn gymwys i ddiffoddwr tân cynorthwyol)—

(a) yn lle "a member of a brigade", rhodder "an employee of a fire and rescue authority"; a

(b) yn lle "who is enrolled for service in the brigade which", rhodder "whose employment".

5. Yn rheol A7 (cyfrif gwasanaeth at ddibenion dyfarniadau)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "a member of a brigade", rhodder "an employee of a fire and rescue authority";

(**9**) Diwygiwyd rheol A3 gan O.S. 2001/3691.
(**10**) 1959 p.44.

(b) ym mharagraff (2)(b), yn lle "fire authority", rhodder "fire and rescue authority"; ac

(c) ym mharagraff (4), yn lle "member of a brigade"(yn y ddau le), rhodder "employee of a fire and rescue authority".

6. Yn rheol A8 (cyfanswm y cyfraniadau pensiwn at ddibenion dyfarniadau), ym mharagraff (1)(a), yn lle "fire authority", rhodder "fire and rescue authority".

7. Yn rheol A9 (anaf cymwys)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "Except in rule J4,", rhodder "Except in rules J4, L1(5) and (6) and L4B(1)(b),"; a

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle "In rule J4, unless the context otherwise requires,", rhodder "In rules J4, L1(5) and (6) and L4B(1)(b)"; a

(ii) yn lle "member of a brigade", rhodder "firefighter".

8. Yn rheol A10 (anabledd)—

(a) yn lle paragraff (1A)(**11**), rhodder—

"(1A) In determining whether a disablement is permanent, a fire and rescue authority shall have regard to whether the disablement will continue until the person's normal pension age."; a

(b) ym mharagraff (4), yn lle "fire authority", rhodder "fire and rescue authority".

9. Yn lle rheolau A13 (ymddeol gorfodol oherwydd oedran) ac A14 (ymddeol gorfodol oherwydd effeithlonrwydd y frigâd), rhodder—

"**Normal pension age**

A13. The normal pension age of employees of a fire and rescue authority appointed on terms under which they are or may be required to engage in fire-fighting is 55.

Compulsory retirement of grounds of efficiency

A14. A regular firefighter who—

(a) has attained the age of 50, and

(b) has, or but for an election under rule G3 or a failure to make an election under rule G2A would have, completed 25 years' pensionable service,

may be required by the fire and rescue authority to retire on the grounds that his retention in the fire and rescue service would not be in the general interests of its efficiency.".

10. Yn rheol A15 (ymddeol gorfodol ar sail anabledd)(**12**), yn lle "fire authority"(yn y ddau le), rhodder "fire and rescue authority".

11. Yn rheol A16 (dyddiad ymddeol gweithredol), yn lle "a member of a brigade", rhodder "an employee of a fire and rescue authority".

12. Yn rheol B1(pensiwn cyffredin)—

(a) ym mharagraff (2)(a), yn lle "joining another brigade", rhodder "taking up employment with another fire and rescue authority"; a

(b) ym mharagraff (2)(b)—

(**11**) Mewnosodwyd paragraff (1A) gan O.S. 2004/1912.
(**12**) Diwygiwyd rheol A15 gan O.S. 1997/2309.

(i) yn lle "fire authority", rhodder "fire and rescue authority"; a

(ii) yn lle "chief officer", rhodder "chief fire officer".

13. Yn rheol B2 (dyfarniadau gwasanaeth byr), yn lle paragraff (1), rhodder—

"(1) This rule applies, unless immediately before his retirement an election under rule G3 not to pay pension contributions had effect, to a regular firefighter who—

(a) retires on or after attaining the age of 65,

(b) is entitled to reckon at least 2 years' pensionable service, and

(c) is not entitled to any other pension or gratuity under this Part.".

14. Yn rheol B3 (dyfarniad afiechyd)—

(a) ym mharagraff (2)(a) a (b), ar ôl "calculated", mewnosoder "subject to paragraph (3)"; a

(b) ar ôl paragraff (2), mewnosoder—

"(3) Where the person has the role of Station Manager B or a superior role, the calculation required by paragraph (2)(a) or (b) shall be made as if his normal pension age were 60.".

15. Yn rheol B5 (pensiwn gohiriedig)—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle "a member of a brigade", rhodder "an employee of a fire and rescue authority";

(ii) yn lle "joining another brigade", rhodder "taking up employment with another fire and rescue authority"; a

(iii) ar ôl "calculated", mewnosoder "subject to paragraph (3A)";

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (b), yn lle "rejoining his brigade", rhodder "re-employment with his fire and rescue authority"; a

(ii) ar ôl "calculated", mewnosoder "subject to paragraph (3A)";

(c) ar ôl paragraff (3), mewnosoder—

"(3A) Where the person has the role of Station Manager B or a superior role, the calculation required by paragraph (2) or (3) shall be made as if his normal pension age were 60."; ac

(ch) ym mharagraff (4)(b), ar ôl "he becomes permanently disabled", mewnosoder "for engaging in firefighting or performing any other duties appropriate to his former role as a firefighter".

16. Yn rheol B6 (ad-dalu cyfanswm y cyfraniadau pensiwn), ym mharagraff (1),—

(a) yn lle "a member of a brigade", rhodder "an employee of a fire and rescue authority"; a

(b) yn lle "joining another brigade", rhodder "taking up employment as a regular firefighter with another fire and rescue authority".

17. Yn rheol B7 (cyfnewid— darpariaeth gyffredinol)—

(a) yn lle paragraff (5)(b), rhodder "(b) he retires at, or after, normal pension age";

(b) hepgorer paragraff (5)(c); ac

(c) ym mharagraffau (7) i (9), yn lle "fire authority", rhodder "fire and rescue authority".